# Darllen gyda'ch plentyn

## 0-12 mis

Dechrau Da
Bookstart
BookTrust Cymru



**booktrust.org.uk/cymru**

Darluniau gan Daniel Taylor

Rhif elusen 313343

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

## Helô Mamau, Tadau a Gofalwyr!

**Croeso i'ch pecyn Dechrau Da Babi.**

**Yn y BookTrust, rydyn ni'n credu dydy hi byth yn rhy gynnar i ddechrau darllen gyda'ch babi.**

**Mae darllen gyda'ch plentyn o oedran cynnar yn helpu i roi'r dechrau gorau posibl iddyn nhw mewn bywyd.**

**Mae'r llyfryn hwn yn rhoi rhai o'n hoff awgrymiadau ynglŷn â darllen gyda'ch babi.**

**Rydyn ni'n gobeithio y daw darllen gyda'ch gilydd yn rhan o'ch trefn bob dydd y mae'ch teulu cyfan yn edrych ymlaen ati.**

**Mae treulio cwta deg munud yn darllen gyda'ch gilydd bob dydd yn gallu:**

- **Helpu'ch plentyn i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, sgiliau emosiynol a sgiliau cyfathrebu**
- **Ei helpu i dyfu i fod yn ddysgwr hapus a hyderus**
- **Cryfhau perthynas eich plentyn â chi.**

**Mwynhewch y darllen!**

Mae rhaglen Dechrau Da yng Nghymru'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rhedeg gan y BookTrust – elusen ddarllen fwyaf y DU. Caiff rhaglen Dechrau Da yng Nghymru ei chyflenwi mewn partneriaeth â llyfrgelloedd ac ymwelwyr iechyd.

**Yn y BookTrust, rydyn ni yma i helpu'ch plentyn i ddatblygu cariad at ddarllen ac i roi cefnogaeth a chyngor i chi ar hyd y ffordd.**

**A dim ond y cam cyntaf ar y ffordd honno ydy'ch pecyn Dechrau Da Babi.**

**Fe ddylech chi dderbyn pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar pan fydd eich plentyn yn rhyw 27 mis oed, oddi wrth eich ymwelydd iechyd fel rheol.**

**A phan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol, fe ddylai hefyd gymryd rhan yn ein rhaglen arbennig Pori Drwy Stori.**

**Ar ein gwefan, fe fyddwch chi'n dod o hyd i awgrymiadau ar gyfer rhannu llyfrau, rhigymau difyr i wrando arnyn nhw yn y Gymraeg a'r Saesneg, recordiadau o rai o lyfrau Dechrau Da a syniadau ynglŷn â beth i'w ddarllen nesaf.**

**Ewch i booktrust.org.uk/cymru**



# Awgrymiadau i'ch helpu i fwynhau llyfrau gyda'ch gilydd bob dydd

- **Dewiswch rywle tawel i ffwrdd oddi wrth sŵn, y teledu a ffonau symudol.**
- **Cymerwch eich amser i edrych ar y lluniau ac i siarad amdanyn nhw.**
- **Does dim ots os bydd eich babi'n cnoi wrth y llyfrau ar y dechrau. Bydd e neu hi'n dechrau mwynhau troi'r tudalennau ymhen dim o dro!**
- **Gwnewch synau anifeiliaid neu effeithiau sain – mae'r rhain yn helpu i ddod â'r stori'n fyw ac fe fydd yn gwneud i'r ddau ohonoch chi chwerthin!**
- **Gellir rhannu straeon a rhigymau gyda'r teulu cyfan, felly beth am wahodd aelodau eraill o'r teulu i ymuno yn yr hwyl?**
- **Does dim ots os nad ydych chi'n darllen yn wych eich hun – oherwydd mae gwrando ar eich llais ynddo'i hun yn cysuro'ch babi.**



# Pam fod darllen gyda'ch plentyn yn bwysig

- Mae cyd-ddarllen yn ardderchog ar gyfer meithrin perthynas gref a chariadus â'ch plentyn.
- Bydd trefn sefydlog rhannu straeon a rhigymau'n helpu'ch plentyn i gyfathrebu a bydd yn cefnogi'u lles.
- Mae plant sy'n darllen o oedran ifanc iawn yn gwneud yn well pan ân nhw i'r ysgol – bydd cyd-ddysgu rhigymau a straeon yn gadael iddyn nhw achub y blaen ar fywyd!



# Mae'n amser rhigwm!

**Mwynhewch ganu'r rhigwm hwn gyda'ch plentyn:**

**Gwena, gwena, seren wen**

**Seren fechan yn y nen**

**Yn gwenu'n ddisglair uwch fy mhen.**

**Gwenu'n ddisglair uwch y byd,**

**Gwenu'n ddisglair wnei o hyd.**

**Seren fechan yn y nen**

**Yn gwenu'n ddisglair uwch fy mhen.**



- Mae Seren Fechan (ar alaw Twinkle, Twinkle) yn rhigwm perffaith ar gyfer amser gwely – gallwch chi syllu ar y sêr gyda'ch gilydd.
- Gwnewch sêr â'ch dwylo – agor a chau'r llaw i ddangos y seren yn pefrio.
- Gall rhannu rhigymau, hyd yn oed am ychydig funudau bob dydd, hefyd helpu'ch plentyn i dyfu i fod yn ddarllenwr.

# Neges oddi wrth Uwch-Ymwelwyr Iechyd Cymru

“Mae Bookstart / Dechrau Da yn rhaglen ardderchog. Bu’n rhedeg yn llwyddiannus ers 1992 ac mae’r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn falch o allu rhoi cefnogaeth lawn iddi.

Mae rhannu straeon, caneuon a rhigymau gyda phlant bach yn helpu datblygiad eu hymennydd. Bydd hyd at 75% o dwf yr ymennydd yn digwydd o fewn tair blynedd gyntaf bywyd eich plentyn.

Mae’ch pecyn Bookstart / Dechrau Da’n cynnwys llyfrau Cymraeg a Saesneg. Bydd cyflwyno ail iaith i blant bach yn eu helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu da. Mae fel gêm iddyn nhw, a dydyn nhw ddim yn drysu. Gallwch chi ddod o hyd i syniadau am siarad dwy iaith o’r dechrau’n deg yn **cymraeg.llyw.cymru**.

Os oes gennych unrhyw ofid ynghylch lleferydd neu sgiliau cyfathrebu cyffredinol eich plentyn, yna cysylltwch â’ch Ymwelydd Iechyd neu Feddyg Teulu.”


# Neges oddi wrth lyfrgelloedd yng Nghymru

- Llyfrgelloedd yw'r lleoedd perffaith i ddarganfod rhagor o lyfrau i'w mwynhau gyda'ch plentyn. Bydd staff eich llyfrgell leol yn eich helpu chi'ch dau i ddewis llyfrau sy'n hwyl i'w darllen.
- Gallwch chi ymuno â'r llyfrgell o unrhyw oedran – ac mae'n hollol rad ac am ddim!
- Dydy llyfrgelloedd ddim yn codi am ddychwelyd llyfrau'n hwyr os mai plant wnaeth eu benthyca.
- Bydd llawer o lyfrgelloedd yn cynnal sesiynau Amser Rhigwm ac Amser Stori – dyma ffyrdd rhagorol o gwrdd â mamau, tadau a gofalwyr eraill, ac i rannu straeon, caneuon a rhigymau.
- Mae gan lyfrgelloedd lyfrau sy'n rhoi cymorth a chyngor yn ogystal. Gofynnwch i ni am lyfrau am ddiddyfnu, delio â sterics, cysgu a materion eraill.
- Mae llyfrgelloedd yn lleoedd sy'n croesawu bwydo ar y fron ac rydym wrth ein bodd i gael plant i ddod yma, hyd yn oed plant bach iawn – ac ni fydd neb yn dweud 'shhh!' mwyach!


Gallwch chi ddod o hyd i'ch llyfrgell leol yn **llyfrgelloedd.cymru**



# Dewis llyfrau




***Annwyl Sw***
**Llyfr clasurol codi'r-fflap, lle mae datgelu'r anifeiliaid o'r sw bob amser yn rhoi pleser.**




***Mae Llygoden yn Fach***
**Mae llygoden yn fach ond tybed beth ydy'r anifail mwyaf oll? Fe fydd eich babi wrth ei fodd â'r anifeiliaid lliwgar a'r diweddglo digrif iawn.**

- **Ewch i'ch llyfrgell leol a benthyca llyfrau am ddim. Gofynnwch a ydyn nhw'n cynnal sesiwn Amser Rhigwm neu Amser Stori lle gallwch chi gwrdd â theuluoedd eraill a mwynhau rhigymau gyda'ch gilydd!**
- **Gofynnwch i'ch ymwelydd iechyd am syniadau ynglŷn â sut i gefnogi datblygiad eich babi drwy rannu llyfrau gyda'ch gilydd.**
- **Dewch o hyd i lyfrau ardderchog ar-lein gyda'r BookTrust! Mae gan ein gwefan lawer o syniadau ar gyfer llyfrau i'w mwynhau yn ogystal â mwy o awgrymiadau i wneud darllen yn hwyl.**
  **booktrust.org.uk**